

Taflen ffeithiau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL) Treth Pensiynau - Lwfans blynyddol

Mehefin 2025

Cynnwys

Beth yw'r lwfans blynyddol?	1
A fydd y lwfans blynyddol yn effeithio arnaf?	2
Adran 50/50 y C P L I L	2
Sut mae'r lwfans blynyddol yn cael ei gyfrifo?	3
Dwyn ymlaen	4
Y lwfans blynyddol taprog ar gyfer enillwyr cyflog uwch.....	4
Mynediad 'Budd Hyblyg' Lwfans Blynyddol	8
Sut byddwn i'n talu treth lwfans blynyddol?.....	8
A yw hyn yn effeithio arnaf i?	9
Rhagor o Wybodaeth	9
Pensiynau@sirgar.gov.uk	9
Ymwadiad	10

Taflen ffeithiau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL)

Treth Pensiynau - Lwfans blynyddol

Mae Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi yn cyfyngu ar faint o bensiwn y gallwch ei gynilo heb orfod talu treth ychwanegol. Mae'r cyfyngiad hwn yn ychwanegol at unrhyw dreth incwm yr ydych yn ei dalu ar eich pensiwn unwaith y caiff ei dalu i chi.

Beth yw'r lwfans blynyddol?

Y lwfans blynyddol yw faint gall gwerth eich buddion pensiwn gynyddu mewn blwyddyn heb fod yn rhaid i chi dalu treth ychwanegol.

Os yw gwerth eich cynilion pensiwn mewn blwyddyn (gan gynnwys cynilion pensiwn y tu allan i'r CPLIL) yn fwy na'r lwfans blynyddol, bydd y swm dros ben yn cael ei drethu fel incwm.

Cynyddodd y lwfans blynyddol safonol i £60,000 o 6 Ebrill 2023. Ar gyfer blynyddoedd treth 2016/17 i 2022/23 roedd yn £40,000.

Bydd y lwfans blynyddol ar gyfer rhai aelodau yn is na'r lwfans blynyddol safonol. Gallwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth am pryd bydd lwfans blynyddol gwahanol yn berthnasol yn nes ymlaen yn y daflen ffeithiau hon.

A fydd y lwfans blynyddol yn effeithio arnaf?

Ni fydd y lwfans blynyddol yn effeithio ar y rhan fwyaf o bobl oherwydd ni fydd gwerth eu cynilion pensiwn yn cynyddu mwy mewn blwyddyn na therfyn y lwfans blynyddol. Pan fydd y cynnydd yn fwy na'r terfyn hwnnw, mae'n debygol y bydd ganddynt lwfans heb ei ddefnyddio o flynyddoedd blaenorol y gellir ei ddwyn ymlaen.

Mae mwyaf tebygol y bydd y lwfans blynyddol yn effeithio arnoch os bydd un neu fwy o'r datganiadau isod yn berthnasol i chi:

- Mae gennych aelodaeth o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a gafodd ei chronni yn yr adran cyflog terfynol ac rydych yn derbyn codiad cyflog sylweddol. Aelodaeth a gronwyd cyn 1 Ebrill 2014 yw aelodaeth cyflog terfynol.
- Rydych yn cyfuno'r buddion pensiwn CPLIL a gronwyd yn adran cyflog terfynol y CPLIL â'ch cyfrif pensiwn cyfredol, ac mae eich cyflog (cyfwerth ag amser llawn) wedi cynyddu'n sylweddol ers i chi adael y Cynllun.
- Rydych yn trosglwyddo hawliau pensïynau i'r CPLIL o gynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus blaenorol dan y rheolau trosglwyddo Clwb ffafriol ac mae'ch cyflog (cyfwerth ag amser llawn) wrth ymuno â'r CPLIL yn uwch na'r cyflog roeddech yn ei ennill pan adawoch y cynllun blaenorol. Ystyr cynlluniau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus yw cynlluniau ar gyfer gweision sifil, unrhyw gynllun yng Nghymru, Lloegr neu'r Alban ar gyfer gweithwyr llywodraeth leol, athrawon, gweithwyr gwasanaeth iechyd, gweithwyr gwasanaeth tân ac achub neu aelodau'r Heddlu, neu gynllun pensiwn corff cyhoeddus newydd.
- Yn y gorffennol rydych wedi trosglwyddo aelodaeth o gynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus arall sydd â chysylltiad cyflog terfynol ac rydych yn cael codiad cyflog sylweddol.
- Rydych yn talu lefel uchel o gyfraniadau ychwanegol.
- Rydych yn ennill cyflog uwch.
- Rydych wedi cael mynediad i fuddion hyblyg ar 6 Ebrill 2015 neu ar ôl hynny.

Os yw eich cynilion pensiwn CPLIL yn mynd dros ben y lwfans blynyddol safonol mewn unrhyw flwyddyn sy'n dod i ben ar 5 Ebrill, bydd y Cronfa Bensiwn Dyfed yn cysylltu â chi erbyn 6 Hydref i roi gwybod i chi.

Adran 50/50 y C P L L

Os hoffech gronni'ch pensiwn yn arafach i osgoi neu leihau treth lwfans blynyddol, efallai hoffech ystyried ymuno â'r adran 50/50. Yn adran 50/50 y C P L L rydych yn talu hanner

eich cyfraniadau arferol ac yn cronni hanner eich pensiwn arferol, ond rydych yn cadw eich yswiriant bywyd llawn a'ch yswiriant salwch. Gallwch gael rhagor o wybodaeth am [Talu llai - adran 50/50](#) ar wefan aelodau'r C P L L.

Cyn cymryd unrhyw gamau i leihau eich rhwymedigaethau treth, dylech bob amser geisio cyngor ariannol annibynnol gan ymgynghorydd cofrestredig yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol. I gael cymorth i ddewis ymgynghorydd ariannol annibynnol, ewch i [wefan MoneyHelper](#).

Sut mae'r lwfans blynyddol yn cael ei gyfrifo?

Mae'r cynnydd yng ngwerth eich cynilion pensiwn yn y C P L L mewn blwyddyn yn cael ei gyfrifo drwy:

- weithio allan gwerth eich buddion yn union cyn dechrau'r 'cyfnod mewnbwn pensiwn'
- cynyddu'r gwerth hwnnw trwy chwyddiant, a'i
- gymharu â gwerth eich buddion ar ddiwedd y 'cyfnod mewnbwn pensiwn'.

Y 'cyfnod mewnbwn pensiwn' yw'r cyfnod y mesurir eich twf pensiwn drosto. Mae cyfnodau mewnbwn pensiwn yn cyd-fynd â'r flwyddyn dreth - 6 Ebrill i 5 Ebrill.

Yn y CPLL, cyfrifir gwerth eich buddion pensiwn drwy:

- luosi swm eich pensiwn blynyddol gan 16
- ychwanegu unrhyw gyfandaliad y mae gennych hawl iddo yn awtomatig o'r cynllun pensiwn, ac
- ychwanegu unrhyw gyfraniadau gwirfoddol ychwanegol rydych chi neu'ch cyflogwr wedi'u talu yn ystod y flwyddyn.

Os yw gwerth y buddion pensiwn ar ddiwedd y cyfnod mewnbwn pensiwn namyn gwerth eich buddion pensiwn yn union cyn dechrau'r cyfnod mewnbwn pensiwn (wedi'i addasu ar gyfer chwyddiant), yn fwy na'r lwfans blynyddol, mae'n bosibl bydd yn rhaid i chi dalu treth.

Mae'r asesiad ar gyfer y lwfans blynyddol yn cwmpasu unrhyw fuddion pensiwn sydd gennych lle rydych wedi bod yn aelod gweithredol yn ystod y flwyddyn, nid buddion yn y C P L L yn unig. Er enghraifft, pe bai'r cynnydd yng ngwerth eich buddion C P L L yn £50,000 yn 2024/25 pan oedd y lwfans blynyddol yn £60,000, ond cawsoch gynydd o £15,000 yng ngwerth buddion pensiwn eraill yn yr un flwyddyn, byddai hynny'n golygu bod gennych gynydd o £65,000 mewn buddion pensiwn. Os nad oedd gennych ddim i'w ddwyn ymlaen, byddai gofyn i chi dalu treth ar y swm dros ben y lwfans blynyddol, er i chi beidio â mynd dros y lwfans blynyddol yn y naill gynllun na'r llall. Gallwch gael rhagor o wybodaeth am ddwyn ymlaen yn yr adran nesaf.

Dwyn ymlaen

Efallai y bydd yn rhaid ichi dalu treth lwfans blynyddol os bydd gwerth eich cynilion pensiwn ar gyfer y flwyddyn yn cynyddu mwy na'r lwfans blynyddol ar gyfer y flwyddyn honno. Fodd bynnag, mae rheol dwyn ymlaen o dair blynedd yn caniatáu ichi ddwyn ymlaen lwfans blynyddol nas defnyddiwyd o'r tair blynedd diwethaf. Mae hyn yn golygu, hyd yn oed os yw gwerth eich cynilion pensiwn yn cynyddu mwy na'r lwfans blynyddol mewn blwyddyn, efallai na fydd yn rhaid i chi dalu treth lwfans blynyddol.

Er enghraifft, cynyddodd gwerth eich cynilion pensiwn yn 2024/25 £70,000 (h.y. £10,000 yn fwy na'r lwfans blynyddol) ond yn y tair blynedd flaenorol roedd wedi cynyddu £35,000, £28,000 a £30,000. Byddai'r swm y byddai'r cynnydd yn eich cynilion pensiwn yn brin o'r lwfans blynyddol am y tair blynedd hynny yn fwy na gwneud iawn am y cynilion pensiwn dros ben o £10,000 ym mlwyddyn 2024/25. Ni fyddai'n rhaid i chi dalu treth lwfans blynyddol.

Er mwyn dwyn ymlaen lwfans blynyddol nas defnyddiwyd o flwyddyn gynharach, mae'n rhaid eich bod wedi bod yn aelod o gynllun pensiwn sydd wedi'i gofrestru ar gyfer treth yn y flwyddyn honno.

Y lwfans blynyddol taprog ar gyfer enillwyr cyflog uwch

Caiff y lwfans blynyddol ei dapro ar gyfer unigolion sy'n ennill cyflog uchel. Bydd y lwfans blynyddol yn cael ei ostwng os bydd eich 'Incwm Trothwy' a'ch 'Incwm wedi'i Addasu' yn fwy na'r terfynau mewn blwyddyn. Am bob £2 y mae eich Incwm wedi'i Addasu yn fwy na'r terfyn, mae eich lwfans blynyddol yn cael ei leihau £1. Ni ellir lleihau eich lwfans blynyddol yn is na'r lleiafswm sy'n berthnasol. Mae'r Llywodraeth wedi newid y terfynau hyn ers iddynt gael eu cyflwyno gyntaf. Mae Tabl 2 yn dangos y terfynau sy'n berthnasol.

Tabl 1 - terfynau lwfans blynyddol taprog

	Diffiniad	Terfyn 2016/17 i 2019/20	Terfyn 2020/21 i 2022/23	Terfyn 2023/24 ymlaen
Incwm Trothwy	Yn fras, eich incwm trethadwy ar ôl didynnu eich cyfraniadau pensiwn (gan gynnwys Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol)	£110,000	£200,000	£200,000
Incwm wedi'i addasu	Yn fras, eich incwm trothwy ynghyd â chynilion pensiwn a gronnwyd dros y flwyddyn dreth	£150,000	£240,000	£260,000
Lleiafswm Lwfans Blynyddol	Os yw'ch Lwfans Blynyddol wedi'i dapro, yr isafswm Lwfans Blynyddol a all fod yn berthnasol	£10,000	£4,000	£10,000

Mae incwm trothwy yn cynnwys incwm o bob ffynhonnell sy'n drethadwy e.e. incwm eiddo, incwm cynilion, incwm difidend, incwm pensiwn, incwm nawdd cymdeithasol (lle bo'n drethadwy), incwm pensiwn y wladwriaeth ac ati.

Ni chaniateir i chi ddidynnu o incwm trethadwy unrhyw swm o incwm cyflogaeth a ildwyd ar gyfer darpariaeth pensiwn o ganlyniad i unrhyw aberth cyflog a wnaed ar neu ar ôl 9 Gorffennaf 2015.

Sut mae'r tapro'n gweithio?

O flwyddyn 2023/24 ymlaen, mae'r tapro'n lleihau'r lwfans blynyddol £1 am bob £2 o incwm wedi'i addasu a geir dros £260,000, hyd nes y cyrhaeddir isafswm lwfans blynyddol o £10,000. Dangosir y lwfans blynyddol ar gyfer enillwyr cyflog uwch o 6 Ebrill 2023 yn nhabl 3.

Tabl 3 - Y lwfans blynyddol taprog o 2023/24 ymlaen

Incwm wedi'i addasu	Y Lwfans Blynyddol
£260,000 neu lai	£60,000
£280,000	£50,000
£300,000	£40,000
£320,000	£30,000
£340,000	£20,000
£360,000% neu'n uwch	£10,000

Mae tablau 4 a 5 yn dangos effaith y lwfans blynyddol taprog yn y blynyddoedd hyd at 2022/23.

Tabl 4 - Y lwfans blynyddol taprog o 2020/21 i 2022/23

Incwm wedi'i addasu	Y Lwfans Blynyddol
£240,000 neu lai	£40,000
£250,000	£35,000
£260,000	£30,000
£270,000	£25,000
£280,000	£20,000
£290,000	£15,000
£300,000	£10,000
£312,000% neu'n uwch	£4,000

Tabl 5 - Y lwfans blynyddol taprog o 2016/17 i 2019/20

Incwm wedi'i addasu	Y Lwfans Blynyddol
£150,000 neu lai	£40,000
£160,000	£35,000
£170,000	£30,000
£180,000	£25,000
£190,000	£20,000
£200,000	£15,000
£210,000% neu'n uwch	£10,000

Esiampl 1 Cerys: tâl lwfans blynyddol yn 2022/23

Cyflog gros **2022/23** £220,000

Namyn cyfraniadau pensiwn gweithwyr (12.5%) £27,500

Incwm Trothwy 2022/23 £192,500

Cynilion pensiwn yn y flwyddyn £71,837

Mae Incwm Trothwy Cerys yn llai na £200,000. Ni chafodd ei lwfans blynyddol ei dapro yn 2022/23. Mesurwyd cynilion pensiwn Cerys yn erbyn y lwfans blynyddol safonol o £40,000.

Lwfans Blynyddol Safonol £40,000

Cynilion pensiwn sy'n fwy na lwfans blynyddol £31,837

Treth lwfans blynyddol ar gyfradd ymylol £14,327 (cyfradd ymylol o 45%)

Esiampl 2 Huang: lwfans blynyddol taprog yn 2024/25

Cyflog gros **2024/25** £230,000

Namyn cyfraniadau pensiwn gweithwyr (12.5%) £28,750

Plws incwm trethadwy o eiddo £38,000

Incwm Trothwy 2024/25 £239,250

Plws cynilion pensiwn yn y flwyddyn £75,102

Incwm wedi'i addasu 2024/25 £314,352

Mae Incwm Trothwy Huang yn fwy na £200,000 ac mae ei hincwm wedi'i addasu yn fwy na £260,000. Cafodd ei lwfans blynyddol ei dapro ar gyfer blwyddyn 2024/25.

Lwfans Blynyddol Taprog £32,824*

Dros y lwfans blynyddol £42,278

Treth lwfans blynyddol ar gyfradd ymylol £19,025 (cyfradd ymylol o 45%)

* Tapro = £314,352 - £260,000 = £54,352 ÷ 2 = £27,176

Lwfans Blynyddol Safonol £60,000 - £27,176 = £32,824

Nid ydym wedi caniatáu ar gyfer unrhyw ddwyn ymlaen yn yr esiamplau uchod. Wrth weithio allan y cynilion pensiwn yn y flwyddyn rydym wedi cymryd:

- addasiad chwyddiant o sero
- nad oes gan aelodau unrhyw fuddion cyflog terfynol yn y C P LI L, ac
- nad yw'r aelodau'n talu unrhyw gyfraniadau ychwanegol.

Mynediad 'Budd Hyblyg' Lwfans Blynyddol

Os oes gennych fuddion mewn trefniant pensiwn pryniant arian (cyfraniad diffiniedig) yr ydych wedi cael mynediad hyblyg iddynt ar neu ar ôl 6 Ebrill 2015, yna efallai y bydd rheolau'r Lwfans Blynyddol Pryniant Arian (MPAA) yn berthnasol. Dim ond os yw cyfanswm eich cyfraniadau chi i drefniant pryniant arian mewn cyfnod mewnbyn pensiwn yn fwy na'r MPAA y bydd yr MPAA yn berthnasol.

Yn gyffredinol, os ydych wedi cael mynediad hyblyg i unrhyw fuddion mewn trefniant pryniant arian ar neu ar ôl 6 Ebrill 2015, bydd unrhyw gyfraniadau ychwanegol wnewch chi i gynllun pryniant arian mewn blynyddoedd treth yn y dyfodol yn cael eu profi yn erbyn yr MPAA. Os yw'ch cyfraniadau chi'n fwy na'r MPAA, bydd eich cynilion pensiwn (CPLIL) budd a ddiffiniwyd yn cael eu profi yn erbyn y lwfans blynyddol arall a byddwch chi'n talu treth ar eich cynilion pryniant arian sy'n fwy na'r MPAA.

Tabl 5: Lwfans Blynyddol Pryniant Arian (MPAA)

Blwyddyn Dreth	MPAA	Lwfans blynyddol amgen os eir tros yr M P A A
2016/17	£10,000	£30,000
2017/18 i 2022/23	£4,000	£36,000
2023/24 ymlaen	£10,000	£50,000

Os byddwch yn cael mynediad at fuddion hyblyg, byddwch yn cael datganiad mynediad hyblyg; dylech roi copi o'r datganiad hwn i'ch Cronfa Bensiwn Dyfed.

Mae mynediad hyblyg yn golygu:

- cymryd swm o arian dros y cyfandaliad di-dreth o gyfrif tynnu i lawr mynediad hyblyg
- cymryd cyfandaliad cronfa pensiwn heb ei chrisialu
- prynu blwydd-dal hyblyg
- cymryd pensiwn cynllun o gynllun cyfraniad diffiniedig gyda llai na 12 o aelodau pensiwnwyr, neu
- gymryd cyfandaliad annibynnol os oes gennych chi warchodaeth sylfaenol ond nid gwarchodaeth uwch. Mae cyfandaliad annibynnol yn gyfandaliad cyn 6 Ebrill 2006 pryd gellir cymryd y swm cyfan yn gyfandaliad heb pensiwn cysylltiedig.

Sut byddwn i'n talu treth lwfans blynyddol?

Os ydych yn mynd dros y lwfans blynyddol mewn unrhyw flwyddyn, mae cyfrifoldeb arnoch i roi gwybod am hyn i CThEF ar eich ffurflen dreth hunanasesu.

Mae'n rhaid i'ch cronfa pensiwn roi gwybod i chi os yw eich cynilion pensiwn yn y CPLIL

(ynghyd â swm unrhyw gyfraniadau gwirfoddol ychwanegol rydych wedi'u talu) fod yn fwy na'r lwfans blynyddol safonol mewn blwyddyn, neu os yw'ch cronfa'n credu eich bod wedi mynd dros yr MPAA mewn blwyddyn. Mae'n rhaid i'r gronfa roi gwybod i chi ddim hwyrach na 6 Hydref yn dilyn diwedd y cyfnod mewnbyn pensiwn. Nid oes rhaid i'ch cronfa bensiwn roi gwybod i chi os ydych yn mynd dros eich lwfans blynyddol wedi'i dapro.

Os oes gennych chi dreth lwfans blynyddol sy'n uwch na £2,000 ac mae'ch cynilion pensiwn yn y CPLIL yn unig wedi cynyddu mwy na'r lwfans blynyddol safonol yn y flwyddyn, efallai y byddwch chi'n gallu dewis i'r CPLIL dalu rhywfaint o'r dreth, neu'r dreth i gyd, ar eich rhan. Byddai'r dreth yn cael ei hadfer o'ch pensiwn wedyn.

Os ydych eisiau i'r CPLIL dalu rhywfaint o dreth lwfans blynyddol, neu'r dreth i gyd, ar eich rhan, mae'n rhaid i chi roi gwybod i'ch cronfa bensiwn erbyn 31 Gorffennaf fan hwyrach yn y flwyddyn sy'n dilyn diwedd y flwyddyn y mae'r tâl lwfans blynyddol yn ymwneud â hi. Fodd bynnag, os ydych yn ymddeol (ac yn cymryd eich holl fuddion o'r C P L I L) ac eisiau i'r C P L I L dalu rhywfaint o'r dreth, neu'r dreth i gyd, ar eich rhan o'ch buddion, mae'n rhaid i chi ddweud wrth eich cronfa bensiwn cyn y caiff y buddion hynny eu talu i chi.

A yw hyn yn effeithio arnaf i?

Os ydych yn meddwl bod y Lwfans Blynyddol yn effeithio arnoch chi, gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am [y dreth bensiwn a'r lwfans blynyddol](#) ar wefan y Llywodraeth. Os nad ydych yn siŵr a fydd y lwfans blynyddol yn effeithio arnoch chi, defnyddiwch yr [offeryn gwirio cyflym](#) ar y wefan i aelodau'r CPLIL.

Rhagor o Wybodaeth

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â'ch aelodaeth o'r CPLIL neu'ch buddion, cysylltwch â:

Pensiynau@sirgar.gov.uk

Cronfa Bensiwn Dyfed

Neuadd y Sir

Caerfyrddin

SA31 1JP

01267 2244893

Ymwadiad

Mae'r daflen ffeithiau hon yn rhoi trosolwg o reolau'r lwfans blynyddol ym mis Mai 2025. Ni ddylid ei ystyried yn ddatganiad cyflawn ac awdurdodol o'r gyfraith. Gall y rheolau sy'n pennu lwfans blynyddolfod yn gymhleth a gallant newid; os nad ydych chi'n siŵr beth i'w wneud fe'ch cynghorir i gael cyngor ariannol annibynnol. I gael cymorth i ddewis ymgynghorydd ariannol annibynnol, ewch i'r [wefan HelpwrArian](#)